# Cyffredinolrwydd Eitemau Gwaharddedig Posib ar Wasanaethau Chwilio

Trosolwg

*18 Medi 2023*

PUBLIC

PUBLIC

**_RHYBUDD AM Y CYNNWYS_**

*Mae'r adroddiad hwn a deunyddiau ategol yn trafod gwerthu a chyflenwi eitemau gwaharddedig posib, fel Arfau Ymosodol Â Llafn a Heb Lafn, Cyffuriau a Reolir a Sylweddau Seicoweithredol fel y'i diffiniwyd o dan ddeddfwriaeth bresennol y Deyrnas Unedig. Mae hyn at ddibenion galluogi ymchwil yn unig. Byddwch yn ymwybodol y gallai'r cynnwys a'r gweithgarwch dan sylw fod yn sarhaus a pheri niwed i chi.*

# Crynodeb Gweithredol – yr hyn a wnaethom (1)

PUBLIC

- Ym mis Mawrth 2023, comisiynodd Ofcom gwmni PUBLIC i gynnal prosiect i lunio sail dystiolaeth gadarn mewn perthynas â **chyffredinolrwydd a rhwyddineb cael gafael ar gynnwys** sy'n ymgorffori cynnig ymddangosiadol i werthu neu gyflenwi amrywiaeth o **eitemau neu erthyglau gwaharddedig**, sydd ar gael drwy **wasanaethau chwilio ar-lein**. Cyfeirir at hyn fel **cynnwys gwaharddedig posib** drwy'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau allweddol y prosiect ymchwil.
- **Cynhaliwyd cyfanswm o 384 o chwiliadau**, gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o eitemau gwaharddedig posib. Rhoddwyd pob ymholiad chwilio unigryw ar brawf ar y ddau brif wasanaeth peiriant chwilio o fewn cwmpas yr ymchwil, sef, **Google** a **Bing**. Ar gyfer pob chwiliad unigol, ceisiodd yr ymchwil nodi faint o dudalennau gwe o fewn sampl gyfyngedig y gellid eu dosbarthu fel rhai a oedd yn bodloni'r meini prawf o ran cynnwys gwaharddedig posib.
- Roedd yr ymholiadau'n cynnwys **4 categori** o gynnwys gwaharddedig posib: 1) cyllyll ac arfau â llafn, 2) arfau tanio, 3) cyffuriau a reolir a 4) sylweddau seicoweithredol. Detholwyd **4 eitem benodol** fesul categori. Chwiliwyd pob ymholiad ar draws **4 cynnyrch gwasanaeth chwilio**: chwiliad testun, chwiliad delwedd, siopa, a chwiliad fideo.
- Ar gyfer pob un o'r 384 o chwiliadau, detholwyd **12 canlyniad URL** ar hap o blith y **30 prif ganlyniad** a'u dadansoddi, gan arwain at **4,608 o ganlyniadau.**
- Datblygwyd **system sgorio tair rhan** i ddosbarthu tudalennau gwe yn erbyn meini prawf o ran cynnwys gwaharddedig posib. Defnyddiwyd y meini prawf i asesu a oedd tudalennau gwe'n cynnwys y canlynol:
    - Presenoldeb eitem waharddedig bosib fel cynnyrch
    - Presenoldeb llwybr prynu clir
    - Ar gael i rywun sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig.

# Crynodeb Gweithredol – yr hyn a ganfuom (2)

PUBLIC

- Canfu ein hymchwil fod **cynnwys gwaharddedig posib yn aml yn bresennol ar dudalennau gwe sy'n uniongyrchol hygyrch o dudalennau canlyniadau peiriannau chwilio**.
    - **Canfu'r ymchwil fod tudalennau gwe wedi'u dosbarthu fel rhai a oedd yn dangos cynnwys gwaharddedig posib** yn sampl yr URL a adolygwyd am bob eitem waharddedig bosib a roddwyd ar brawf, **ar draws y ddau wasanaeth chwilio**.
    - Ar draws yr holl gategorïau ymchwil, chwiliadau am **Sylweddau Seicoweithredol** a ddychwelodd y nifer uchaf o dudalennau gwe a oedd yn bodloni'r meini prawf o ran cynnwys gwaharddedig posib, tra mai chwiliadau am **Arfau tanio** a ddychwelodd y nifer isaf.
- Nodwyd **awto-gwblhau, tudalennau canlyniadau peiriannau chwilio, cynnyrch chwilio, a chwiliadau cysylltiedig a noddir** oll yn **swyddogaethau sy'n chwarae rôl** wrth ddatgelu'r cynnwys gwaharddedig posib a nodwyd gan ymchwilwyr yn y sampl.
    - Canfu'r ymchwil **dudalennau gwe a oedd yn dangos cynnwys gwaharddedig posib mewn canlyniadau a noddir ar gyfer rhai o'r ymholiadau chwilio a roddwyd ar brawf.**
    - Darparodd y ddau wasanaeth chwilio **awgrymiadau 'awto-gwblhau' a 'chwiliadau cysylltiedig' i ymchwilwyr** wrth iddynt gynnal chwiliadau am eitemau gwaharddedig posib
- O'r pedwar cynnyrch gwasanaeth chwilio a roddwyd ar brawf, **chwiliad testun a ddychwelodd y nifer uchaf o dudalennau gwe a ddosbarthwyd fel rhai a oedd yn dangos cynnwys gwaharddedig posib**.
    - At ei gilydd, dychwelodd **fideo** a **chynnyrch gwasanaeth chwilio siopa niferoedd cymharol is** o'r mathau hyn o dudalennau gwe.
- Defnyddio **ymholiad chwilio estynedig** – sef un manylach a mwy penodol – **a ddychwelodd y nifer uchaf o wefannau a gafodd eu dosbarthu fel rhai a oedd yn dangos cynnwys gwaharddedig posib**, o'i gymharu â mathau mwy cyffredinol o ymholiad chwilio a roddwyd ar brawf.
    - Roedd hyn yn debygol o fod oherwydd y defnydd o **slang wedi'i dargedu** ac **iaith wedi'i chodio** yn yr ymholiad, yn ogystal â chynnwys **iaith ychwanegol yn gysylltiedig â phrynu.**
- Roedd tudalennau gwe a oedd yn bodloni'r meini prawf i'w dosbarthu fel rhai a oedd yn dangos cynnwys gwaharddedig posib yn tueddu i **ymddangos yn uwch ar y dudalen canlyniadau peiriant chwilio** – gyda mwy o URLs wedi'u dosbarthu yn y modd hwn yn dod o ganlyniadau chwilio 1-10, o'u cymharu â naill ai 11-20 neu 21-30.